Tud 1.

Cofnodion o bwyllgor Cyllid Ionawr 4. 2024

Pwyllgor yn ymwneud gyda cynllunio y gyllideb ar gyfer 2024/25 yn unig oedd y cyfarfod hwn.

Yn Bresennol

Eirwyn Thomas, Annwen Hughes, Kevin Titley, John Evans, Nia Jones, Robin Ward,

Luise Vassey (cyswllt zoom)

Ymddiheuriadau

Cyngh. Gwynfor Owen, Helen Johns. Jane Taylor Williams.

Nododd y Clerc mae treth Sylfaen anedd dai band D Llanbedr yw £373,86

Hefyd cyfeirio at ffurflen lwfans am 2023/24

Nid oedd neb am hawlio unrhyw arian fel lwfans. Bydd yn rhaid cael llythyrau (e byst) yn nodi hynny gan bob Cynghorydd yn unigol.

Aethpwyd drwy'r spread sheet a gweld yr anghenion lleol.

Trafodwyd yn ddwys yr anghenion hynny a ble I geisio arbed ar arian er mwyn ceisio peidio a gorfod codi y precept yn ormodol ond I ddal gael y gwerth gorau I ardal Llanbedr

Sef gwariant **cae chwarae**. Cost cadw yr offer mewn cyflwr da, costa torri etc. £1982. 2 gost ychwanegol eleni ydoedd torri y gwrych a hefyd torri coeden. £460 + £300

**Y fynwent** – cost gyda clirio llwybr o'r Vic. Mae costau clawdd rhwng Ardudwy a Thir y Victoria wedi ei glustnodi yn y gyllideb 2023/24 (£4201) Cost torri gwair = £1400

Hefyd angen am glawdd yn lle y fainc never cut gyda plac Newydd yno ar gost o £700. Roedd y Gwaith yma I fod wedi ei wneud erbyn Rhagfyr 2023, ond y gwaith yn dal heb ei neud.

**Llwybrau** – cadw hwn . Bechod gadael I rhain gau ar ol gwariant sylweddol yn 2022/23. Wedi clustnodi £1500 y llynedd, ond dim ond wedi clirio 2 lwybr ar gost o £135. Rhoi £1250 yn y gyllideb.

**Toiledau Cyhoeddus** – dal I fyfrannu £4000 tuag at gadw rhain yn agored drwy'r flwyddyn

**HAL** – hyn yn destun sydd wedi bod ar y cardia ers tro. Pasiwyd ar yr 18 o Ragfyr bod hwn yn cael ei ail drafod mewn cyfarfod llawn 4.1.24 £4314 2023/24

.Er bod pleidlais dros e bost wedi cadarnhau ynghynt nad oedd y Cynghorwyr am gario'n mlaen a chyfrannu at HAL.

Rhesymau dros hyn

1. Ddim yn gynaladwy
2. Ddim y gwerth gorau am arian
3. Plant Ysgol Llanbedr ddim yn mynychu gwersi yno
4. Rhieni Llanbedr yn mynd a'I plant I fannau eraill.
5. Ddim yn cau y pwll – mae modd I fusnesau lleol ac I aelodau preifat gyfranogi.

Tud 2.

6.Hefyd diffyg cynllun busnes manwl, er gwaethaf yr addewidion parhaus. Felly nid oes gennym fel Cyngor unrhyw syniad o gostau posibl ar gyfer y dyfodol.

Pleidlais gudd – 1 o blaid. Felly yn peidio rhoi swm ar gyfer hyn ar brecept Llanbedr.

ZOOM a cyfieuthu – mae'n rhaid cael zoom gan bod pobl o bob man yr hawl I glywed yr hyn sydd yn cael ei drafod yn y Cyngor. Yn yr un modd yn ceisio darparu sesiwn gyda cyfieithydd . Mae hyn yn ychwanegu at y costau.

**Delyth Williams – gosod** dogfennau yn fisol ar y dudalen we. Ar hyn o bryd £32 y mis sef cyfanswm o £384

Pasiwyd I godi y tal yma I £40 y mis sef £ 480 mewn blwyddyn.

**Huchenfeld** – mae'r Cyngor wedi cefnogi hwn ers y dechrau. Gwario £573.04 eleni a wedi clustnodi £500. Rhoi £150 yn y gyllideb nesaf. Dim angen yr arian gan na fydd yna dripiau gyfeillio.

Angen am welliannau I'r cae **chwarae e**to ar ol yr archwiliad mis Tachwedd. £2000 wedi ei neilltuo yn 2023/24

Pasiwyd I wneud y gwaith ond heb drwshio y meinciau

**Golau Nadolig**

**Yr arwydd nadolig llawen –** Cyngor Cymuned wedi prynu hon ar gost o £436.69 (Cyllid o £400)

Ond mae'n bwysig cadw arian tuag at hyn bob blwyddyn = £500 yn y gyllideb Newydd.

**Costau a cyflog Clerc** - pasiwyd I godi hwn . Swm a dalwyd

Costau = 979.59 Cyllid 23/24 = £1039 Cyllid 2024/2025 = 1143.99

Cyflog = 1072.60 Cyllid = 1077.94 Cyllid £1143.99

Pethau eraill dan sylw:

1. Neuadd Bentref Llanbedr – wedi clustnodi £1500 ar gyfer hwn. Edrych ar hyn eto yn y pwyllgor 18.1.24
2. Ysgol Feithrin Llanbedr – wedi gwneud cais am arian - clustnodi £1500
3. Rhywbeth Newydd I'r Pentref – CCTV camerau

Rhai o blaid hwn, ac eraill ddim yn gweld gwerth iddynt.

Falle clustnodi arian a gwneud astudiaeth ar gyfer rhain. Cost o'u prynu £2400

Pam?

A oes eu hangen?

Lleoliad. Goruchwylio. Mater preifatrwydd.

Fydda y cyhoedd yn Llanbedr yn fodlon cael rhain yn y Pentref? Cwestiynnau angen eu hateb.

Mae cost y wefan Newydd wedi bod yn fwy na disgwylir . £1000 Ond y r oedd wir angen un newydd, cyfredol, modern, a oedd yn gweithio ar gyfer y Pentref.

**Tud 3.**

**Codi arian yn lleol** = mae gwir angen gwneud gweithgareddau er mwyn codi arian ar gyfer cymdeithasau lleol, yn enwedig o s oes disgwyl petha newydd a cadw yr un safon Gwaith yn y Pentref.

Gwerth amod 137 – arian yw £9.93 2023/24 . Hwn yn £10.81 am 2024/25

Ar betha sydd ddim yn ddyletswydd ar I'r Cyngor gyfrannu tuag atynt., elusennau – o werth I'r pentref.

Wedi ystyried pob dim mae angen £21000 ar Llanbedr,  Angen ateb erbyn 27/1/24

Mae hyn drwy beidio a cyfrannu at HAL ar ol Mawrth 2024

Felly presept Llanbedr yn £21000, yn 5% yn uwch na 2023/24